

# Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG)

Teitl y Polisi / Gweithdrefn / neu reswm dros ailstrwythuro	Y WEITHDREFN GWYNO I FYFYRWYR
Lefel yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (e.e. ar lefel y Brifysgol, y Coleg, yr Ysgol neu'r Adran?)	Y BRIFYSGOL
Enw'r swyddog / pwyllgor atebol	CAROLE EVANS, CYFARWYDDWR CYNLLUNIO STRATEGOL A LLYWODRAETHU
Enw a rôl y Swyddog arweiniol sy'n cwblhau'r AEG hwn	MICHELLE ENSOR, SWYDDOG LLYWODRAETHU, CYNLLUNIO STRATEGOL A LLYWODRAETHU
Manylion Cyswllt	<a href="mailto:Governance@caerdydd.ac.uk">Governance@caerdydd.ac.uk</a>
Dyddiad dechrau'r Asesiad	11 AWST 2015
Dyddiad cytuno ar yr Asesiad gan y swyddog / pwyllgor atebol	12 HYDREF 2016
Llofnod (swyddog atebol / cadeirydd y pwyllgor atebol)	Carole Evans

**Dylid defnyddio'r ffurflen hon ar y cyd â'r canllawiau ysgrifenedig gan ddefnyddio'r awgrymiadau allweddol ar gyfer pob cwestiwn.**

## **1. Diben y cynnig neu'r penderfyniad sy'n ofynnol**

Cynhaliwyd ymarfer cwmpasu yn 2009 ar fersiwn gyfredol y Gweithdrefnau ar gyfer Datrys Pryderon/Problemau Myfyrwyr a lywiwyd gan yr Asesiad hwn o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Diweddarau Gweithdrefnau, cyngor ac arweiniad y Brifysgol i fyfyrwyr ar gyfer gwneud cwynion.

Ym mis Rhagfyr 2014 cyhoeddodd Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (OIA) fframwaith arfer da: <http://oiahe.org.uk/good-practice-framework.aspx> oedd yn amlinellu'r disgwyliadau ar gyfer ymdrin â chwynion ac apeliadau academaidd gan Sefydliadau Addysg Uwch Mae'r Brifysgol wedi cytuno i sicrhau bod ei Gweithdrefnau presennol ar gyfer Datrys Pryderon/Problemau Myfyrwyr yn cyd-fynd â'r fframwaith ac mae'n ofynnol i'r Weithdrefn Gwyno i Fyfyrrwyr ddiwygiedig fod ar waith erbyn 1 Medi 2015.

Mae'r Weithdrefn Gwyno i Fyfyrrwyr, sy'n disodli'r Gweithdrefnau ar gyfer Datrys Pryderon/Problemau Myfyrwyr, yn ddogfen annibynnol ond caiff ei chynnwys yn Rheoliadau Academaidd y Brifysgol.

## **2. Tystiolaeth a ddefnyddiwyd/ystyriwyd**

Mae Fframwaith Arfer Da ar gyfer Ymdrin â Chwynion ac Apeliadau Academaidd Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol yn ganllaw ar gyfer ymdrin â chwynion ac apeliadau academaidd mewn addysg uwch yng Nghymru a Lloegr. Mae'n nodi'r egwyddorion a'r arfer da gweithredol ond nid yw'n cynnwys manylder rhagnodol. Mae'r fframwaith yn ategu Pennod B9 Cod Ansawdd y Deyrnas Unedig sy'n seiliedig ar egwyddorion.

Mae Gweithdrefn Gwyno y Brifysgol i Fyfyrrwyr yn cyd-fynd â Fframwaith Arfer Da Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol a bydd yn adnodd teg a hygyrch i bob myfyrwr allu gwneud cwyn i'r Brifysgol am y canlynol:

- 1 methiant gan y Brifysgol i fodloni ei rhwymedigaethau;
- 2 pryderon ynglŷn â chyflwyniad rhaglen (yn cael eu haddysgu neu ymchwil), addysgu neu weinyddu, **gan gynnwys goruchwyliaeth**;
- 3 materion yn ymwneud ag ansawdd cyfleusterau, adnoddau dysgu neu wasanaethau'n cael eu darparu gan y Brifysgol.

Fel rhan o'i dyfarniad mewn achos ar ddechrau 2015-2016 dywedodd Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol, er bod Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol yn falch fod y Brifysgol wedi adolygu ei gweithdrefn, mae'n nodi yr ymddengys bod is-gamau i'r hyn a ddisgrifiwyd fel Gweithdrefn tri cham, sydd, ym marn Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol, yn gymhleth a dryslyd heb fod angen. **Awgrymodd** Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol y dylai'r Brifysgol adolygu ei gweithdrefnau, gan fabwysiadu'r egwyddorion a nodir yn Fframwaith Arfer Da Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol. Fel rhan o'r ystyriaeth hon, gwnaed sawl diwygiad ac eglurhad i'r

Weithdrefn Gwyno i Fyfyrywyr, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn symleiddio'r Weithdrefn bresennol.

Mae un o'r newidiadau hyn yn ymwneud â Cham Datrys Cynnar y Weithdrefn Gwyno i Fyfyrywyr. Mae Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol wedi nodi ei bod yn ystyried bod y Cam Datrys Cynnar (drwy drafodaeth) yn is-gam. Felly, dilëwyd y cymal Datrys Cynnar (drwy drafodaeth) (3.1) yn weithredol o 1 Medi 2016. Fodd bynnag, ni ddylai hyn atal myfyrywyr rhag gallu datrys problemau drwy drafodaeth y tu allan i'r Weithdrefn.

Mae'r Weithdrefn Gwyno i Fyfyrywyr yn darparu cyfres o brosesau ac amserlenni ar gyfer ymdrin â chwynion. Caiff canllawiau ar gyfer myfyrywyr eu cynnwys yn y Weithdrefn ynghyd â chyfeiriadau at weithdrefnau perthnasol eraill. Mae taflen ganllawiau i fyfyrywyr ar gael hefyd.

Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod gan fyfyrywyr hawl i gwyno. Ni fydd myfyriwr sy'n cwyno yn dioddef unrhyw niwed o ganlyniad i wneud hynny. Mae'r Weithdrefn Gwyno i Fyfyrywyr yn cynnig fframwaith ar gyfer gwneud cwyn i fyfyrywyr.

Mae gan y Brifysgol tua 30,000 o fyfyrywyr. Gall pob myfyriwr cofrestredig a chyn-fyfyrywyr ddefnyddio'r Weithdrefn Gwyno i Fyfyrywyr o fewn 28 diwrnod calendr i'w dyddiad gadael swyddogol neu ei ddyddiad graddio.

Mae gan y Weithdrefn Gwyno i Fyfyrywyr dri cham: **Cam Datrys Cynnar**, **Cam Ffurfiol** a **Cham Adolygu**. Mae terfynau amser ynghlwm wrth bob cam o'r weithdrefn.

Mae'r Brifysgol yn ymroddedig i gynnal ymchwiliad llawn a theg o gwynion difrifol neu gymhleth.

Cyhyd â bod ganddynt sail briodol, gall myfyrywyr wneud cais i'r Penderfyniad Cwyn Ffurfiol gael ei adolygu (y Cam Adolygu) er mwyn sicrhau bod y penderfyniad yn un teg a rhesymol o ystyried y dystiolaeth sydd ar gael.

Lle mae'r materion a godwyd yn effeithio ar nifer o fyfyrywyr, gellir ystyried cwyn grŵp o dan y Weithdrefn Gwyno i Fyfyrywyr.

Mae cymorth a chngor ar gael i fyfyrywyr yn ystod pob cam o'r Weithdrefn Gwyno i Fyfyrywyr o amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys cyngor **annibynnol** gan Cyngor i Fyfyrywyr a leolir yn Undeb y Myfyrywyr a Chanolfannau Cymorth Myfyrywyr y Brifysgol. Anogir y myfyrywyr i geisio'r cymorth hwn.

Cofnodir cwynion ffurfiol yn ganolog gan yr adran Cynllunio Strategol a Llywodraethu a chyflwynir adroddiad blynyddol i Bwyllgor Llywodraethu a Senedd y Brifysgol.

Cyflwynir Adroddiad Monitro Cydraddoldeb ar geisiadau cwyn ffurfiol gan fyfyrywyr i Bwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Brifysgol yn flynyddol, sy'n rhoi manylion achosion sydd ag elfen cydraddoldeb (neu elfen cydraddoldeb bosibl) iddynt.

Er gwaethaf y ffaith bod nifer y cwynion ffurfiol yn weddol isel, ceir cyfran amlwg o'r achosion hyn lle mae elfen cydraddoldeb iddynt. Mae'r data canlynol yn nodi nifer yr achosion a oedd yn ymwneud â mater cydraddoldeb posibl / a oedd yn cynnwys elfen cydraddoldeb bosibl i'r gŵyn.

**a) Ceisiadau Cwyn Ffurfiol ar gyfer y Flwyddyn Academaidd 2011/12**

Derbyniodd y Brifysgol dri chais gan fyfyrwyr i uwchgyfeirio eu cwynion i Gam Ffurfiol y Gweithdrefnau ar gyfer Datrys Pryderon/Problemau Myfyrwyr.

Roedd gan ddau (67%) o'r achosion hyn elfen cydraddoldeb neu elfen cydraddoldeb bosibl. Roedd y ddau achos yn ymwneud â'r nodwedd warchoddedig Anabledd (Noder: mae hyn yn cynnwys pob achos y nodwyd ei fod yn ymwneud ag anabledd, fodd bynnag, mae'n bosibl na ddilyswyd bod y wybodaeth hon yn bodloni'r diffiniad cyfreithiol o anabledd).

Cafodd un achos ei ddatrys ar y Cam Anffurfiol a chafodd un achos ei gwtogi ar Gam Anffurfiol y Weithdrefn oherwydd ystyriwyd nad oedd unrhyw sail i'w uwchgyfeirio i'r Cam Ffurfiol.

**b) Achosion Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol - Blwyddyn galendr 2012**

Derbyniodd y Brifysgol 25 o achosion Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol yn y flwyddyn galendr 2012.

Roedd gan chwech (24%) o'r achosion hyn elfen cydraddoldeb neu elfen cydraddoldeb bosibl a chafodd pob un ei gyflwyno i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol oherwydd bod y myfyrwyr yn anfodlon gyda chanlyniadau eu hapeliadau academaidd. Roedd pob un o'r chwe achos yn ymwneud â'r nodwedd warchoddedig Anabledd (Noder: mae hyn yn cynnwys pob y nodwyd ei fod yn ymwneud ag anabledd, fodd bynnag, mae'n bosibl na ddilyswyd bod y wybodaeth hon yn bodloni'r diffiniad cyfreithiol o anabledd).

Dyfarnodd Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol nad oedd modd cyfiawnhau'r chwe achos.

**c) Ceisiadau Cwyn Ffurfiol - Blwyddyn Academaidd 2012/13**

Derbyniodd y Brifysgol ddau gais gan fyfyrwyr i uwchgyfeirio eu cwynion i Gam Ffurfiol y Weithdrefn. Nid oedd elfen cydraddoldeb nac elfen cydraddoldeb bosibl i'r achosion hyn.

**d) Achosion Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol - Blwyddyn galendr 2013**

Derbyniodd y Brifysgol 26 o achosion Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol yn y flwyddyn galendr 2013.

Roedd gan saith (27%) o'r achosion hyn elfen cydraddoldeb neu elfen cydraddoldeb bosibl a chafodd pob un ei gyflwyno i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol oherwydd bod y myfyrwyr yn anfodlon gyda chanlyniadau eu hapeliadau academaidd. Roedd pob un o'r saith achos yn ymwneud â'r nodwedd warchoddedig Anabledd (Noder: mae hyn yn cynnwys pob y nodwyd ei fod yn ymwneud ag anabledd, fodd bynnag, mae'n bosibl na ddilyswyd bod y wybodaeth hon yn bodloni'r diffiniad cyfreithiol o anabledd).

Dyfarnodd Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol nad oedd modd cyfiawnhau pum achos; roedd un achos 'yn rhy hwyr' i'w ystyried gan Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol; cafodd un achos ei ddatrys gan y Brifysgol wrth i wybodaeth newydd ddod i'r amlwg o ganlyniad i gŵyn Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol.

**e) Ceisiadau Cwyn Ffurfiol - Blwyddyn Academaidd 2013/14**

Derbyniodd y Brifysgol naw cais gan fyfyrwyr i uwchgyfeirio eu cwynion i Gam Ffurfiol y

Gweithdrefnau ar gyfer Datrys Pryderon/Problemau Myfyrwyr.

Roedd gan ddau (22%) o'r achosion hyn elfen cydraddoldeb neu elfen cydraddoldeb bosibl. Roedd y ddau achos yn ymwneud â'r nodwedd warchoddedig Anabledd (Noder: mae hyn yn cynnwys pob achos y nodwyd ei fod yn ymwneud ag anabledd, fodd bynnag, mae'n bosibl na ddilyswyd bod y wybodaeth hon yn bodloni'r diffiniad cyfreithiol o anabledd).

Cafodd un achos ei ddatrys a chafodd un achos ei gwtogi ar Gam Anffurfiol y Weithdrefn oherwydd ystyriwyd nad oedd unrhyw sail i'w uwchgyfeirio i'r Cam Ffurfiol.

**f) Achosion Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol - Blwyddyn galendr 2014**

Derbyniodd y Brifysgol 38 o achosion Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol yn y flwyddyn galendr 2014.

Roedd gan wyth (21%) o'r achosion hyn elfen cydraddoldeb neu elfen cydraddoldeb bosibl; roedd chwech yn ymwneud ag apeliadau academiaidd ac roedd dau yn ymwneud â chwynion. Roedd chwe achos yn ymwneud â'r nodwedd warchoddedig Anabledd (Noder: mae hyn yn cynnwys pob y nodwyd ei fod yn ymwneud ag anabledd, fodd bynnag, mae'n bosibl na ddilyswyd bod y wybodaeth hon yn bodloni'r diffiniad cyfreithiol o anabledd); roedd un achos yn ymwneud â Chrefydd a Chred ac roedd un achos yn ymwneud â Hil.

Dyfarnodd Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol nad oedd modd cyfiawnhau chwe achos a chafodd dau achos ei datrys gan y Brifysgol.

**g) Ceisiadau Cwyn Ffurfiol - Blwyddyn Academaidd 2014/15**

Derbyniodd y Brifysgol 13 o geisiadau gan fyfyrwyr i uwchgyfeirio eu cwynion i Gam Ffurfiol y Gweithdrefnau ar gyfer Datrys Pryderon/Problemau Myfyrwyr (cyflwynwyd tri chais cwyn ffurfiol gan yr un myfyriwr).

Roedd gan ddau **4 (31%)** o'r achosion hyn elfen cydraddoldeb neu elfen cydraddoldeb bosibl. Roedd pob cwyn yn ymwneud â'r nodwedd warchoddedig Anabledd ac mae tri o'r ceisiadau cwynion ffurfiol yn ymwneud â'r un myfyriwr.

Cafodd un gŵyn ei chyfeirio yn ôl i Gam Ffurfiol y Weithdrefn gan na chafodd ei chwblhau'n llwyr, cafodd dwy gŵyn eu cwtogi yng Ngham Anffurfiol y Weithdrefn oherwydd ystyriwyd nad oedd sail i'w huwchgyfeirio i'r Cam Ffurfiol ac ni chafodd un gŵyn ei chadarnhau.

Ystyriwyd tystiolaeth fewnol ychwanegol:

- Adroddiadau i'r Pwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn flynyddol sy'n nodi cwynion ffurfiol sydd ag elfen cydraddoldeb (neu elfen cydraddoldeb ganfyddedig)
- Sylwadau a gafwyd gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Weithdrefn Gwyno i Fyfyrwyr.
- Sylwadau a gafwyd gan y Grŵp Llywio Gweithdrefnau Myfyrwyr

Ystyriwyd tystiolaeth allanol:

- Adborth gan Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ynglŷn â chwynion Prifysgol Caerdydd

a gyfeiriwyd at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol

- Adroddiad 'Race for Equality' Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (UCM) 2011<sup>1</sup>
- Adroddiad '**Education beyond the straight and narrow**' UCM (2014)

### 3. Ymgynghori

Fel rhan o'r broses drafftio a chymeradwyo ar gyfer y Weithdrefn Gwyno i Fyfywyr, sefydlodd y Brifysgol Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ystyried y Weithdrefn ddiwygiedig. Cafodd gwaith y grŵp ei oruchwylio gan Grŵp Llywio a gafodd ei gadeirio gan y Dirprwy Is-Ganghellor ar gyfer Profiad Myfyrwyr a Safonau Academaidd.

Roedd y Grŵp Llywio a'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cynnwys cynrychiolaeth o Golegau, Ysgolion a myfyrwyr ac mae'r weithdrefn ddiwygiedig wedi bod yn destun proses ymgynghori ar draws y Brifysgol.

### 4. Asesu'r effaith debygol (gweler Atodiad 1 isod)

Nodwyd yr effaith bosibl ar y nodweddion gwarchoddedig canlynol fel rhan o'r broses o gynnal yr Asesiad hwn o'r Effaith ar Gydraddoldeb:

	Sylwadau ar y dystiolaeth a'r effaith bosibl neu ofynion penodol (e.e. addasiadau rhesymol ar gyfer anabledd)
Oedran	Ni nodwyd unrhyw effaith benodol ar gyfer y nodwedd warchoddedig oedran.
Anabledd	Nododd y dystiolaeth a ystyriwyd uchod fod nifer o gwynion ffurfiol yn ystod y tair blynedd diwethaf yn ymwneud (naill ai'n rhannol neu'n gyfan gwbl) â'r nodwedd warchoddedig anabledd/salwch. Er nad oedd y cwynion yn ymwneud â phroblemau gyda'r Weithdrefn Gwyno i Fyfywyr ei hun, mae'r asesiad o'r effaith wedi nodi'r angen i sicrhau bod y Weithdrefn yn hygyrch i fyfyrwyr anabl a bod pawb sy'n defnyddio'r Weithdrefn yn cael cyfleoedd i nodi gofynion penodol fel rhan o'r Weithdrefn. Gofynnir i Ysgolion a Gwasanaethau Proffesiynol fonitro cwynion a dderbynnir o dan Gam Datrys Cynnar y Weithdrefn a fydd yn caniatáu i ni fonitro'r mathau hyn o gwynion sy'n ymwneud â nodweddion gwarchoddedig ac adolygu'r ystadegau hyn fel rhan o adroddiad blynyddol Pwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Brifysgol.
Ailbennu rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol	Cydnabyddir y gall rhai myfyrwyr ei chael hi'n anodd codi cwynion sy'n ymwneud â'r nodwedd warchoddedig hon oherwydd y wybodaeth sensitif dan sylw. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae'r Weithdrefn ddiwygiedig yn cynnwys Cam

<sup>1</sup>Yn 2011, canfu adroddiad gan UCM fod un o bob chwe myfyriwr du wedi wynebu hiliaeth yn eu sefydliad, ac nid oedd un rhan o dair yn ymddiried yn eu prifysgol i ymdrin â chwynion yn briodol.

	<p>Datrys Cynnar sy'n caniatáu i fyfyrwyr godi materion yn gyfrinachol a, lle bo modd, caiff y materion hyn eu datrys yn gyflym. Hefyd, mae gan y Weithdrefn ddatganiadau clir ar waith o ran cyfrinachedd yn ogystal â rhoi cyfle i fyfyrwyr nodi gofynion penodol. Mae data cenedlaethol (e.e. adroddiadau a gyhoeddwyd gan UCM a Stonewall) yn awgrymu y gall pobl ifanc mewn addysg ddal i wynebu aflonyddu, bwlio a gwahaniaethu ar sail cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd.</p>
Hil	<p>Cyfran fach iawn o'r cwynion (dim ond un gŵyn Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol yn ystod y tair blynedd diwethaf) oedd yn ymwneud yn rhannol neu'n gyfan gwbl â'r nodwedd warchoddedig hil/ethnigrwydd. Noda tystiolaeth ehangach sy'n ymwneud â chydaddoldeb hiliol (gweler adran 2 uchod) fodd bynnag, fod myfyrwyr o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig (BME) yn fwy tebygol o fod yn destun bwlio/aflonyddu neu wahaniaethu ledled y DU gyfan.</p> <p>Mae rhywfaint o adborth a gafwyd ar y Gweithdrefnau presennol ar gyfer Datrys Pryderon/Problemau Myfyrwyr yn nodi bod rhai myfyrwyr yn amharod i godi cwynion ffurfiol oherwydd rhesymau sy'n ymwneud â chefnidir diwylliannol. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae'r Weithdrefn Gwyno i Fyfyrwyr yn cynnwys Cam Datrys Cynnar sy'n caniatáu i fyfyrwyr godi materion yn gyfrinachol a, lle bo modd, caiff y materion hyn eu datrys yn gyflym. Hefyd, mae gan y Weithdrefn ddatganiadau clir ar waith o ran cyfrinachedd yn ogystal â rhoi cyfle i fyfyrwyr nodi gofynion penodol.</p>
Crefydd neu gred	<p>Cyfran fach iawn o'r cwynion (dim ond un gŵyn Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol yn ystod y tair blynedd diwethaf) oedd yn ymwneud yn rhannol neu'n gyfan gwbl â'r nodwedd warchoddedig crefydd neu gred.</p> <p>Mae rhywfaint o adborth a gafwyd ar y Gweithdrefnau presennol ar gyfer Datrys Pryderon/Problemau Myfyrwyr yn nodi bod rhai myfyrwyr yn amharod i godi cwynion ffurfiol oherwydd rhesymau sy'n ymwneud â chrefydd/cred neu gefndir diwylliannol. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae'r Weithdrefn Gwyno i Fyfyrwyr yn cynnwys Cam Datrys Cynnar sy'n caniatáu i fyfyrwyr godi materion yn gyfrinachol a, lle bo modd, caiff y materion hyn eu datrys yn gyflym. Mae gan y Weithdrefn ddatganiadau clir ar waith o ran cyfrinachedd yn ogystal â rhoi cyfle i fyfyrwyr nodi gofynion penodol fel rhan o'r Weithdrefn.</p>
Priodas a phartneriaeth sifil	Ni nodwyd unrhyw effaith benodol ar gyfer y nodwedd warchoddedig Priodas/Partneriaeth Sifil
Rhyw / Rhywedd	Ni nodwyd unrhyw effaith benodol. Fodd bynnag, nodwyd y gellir codi gofynion penodol sy'n ymwneud â chwynion am aflonyddwch rhywiol o dan Gam Ffurfiol y Weithdrefn.
Beichiogrwydd a mamolaeth	Gellir nodi gofynion penodol sy'n ymwneud â beichiogrwydd/mamolaeth fel rhan o'r Weithdrefn e.e.



	cyfarfodydd Skype / sgysiau ffôn yn lle bod yn bresennol mewn cyfarfodydd, gellir ystyried estyniadau i ddyddiadau cyflwyno oherwydd cyfnod yn yr ysbyty – gweler adran 5 isod.
Y Gymraeg	<p>Mae'r Weithdrefn Gwyno i Fyfirwyr, canllawiau ategol ar gyfer myfirwyr a ffurflenni cysylltiedig ar gael yn Gymraeg.</p> <p>Cymeradwywyd Cynllun Iaith Gymraeg Prifysgol Caerdydd gan y Comisiynydd Iaith yn 2014.</p> <p>Nod y Cynllun diwygiedig yw mynd ati i hyrwyddo'r egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddelio â'r cyhoedd yng Nghymru. <b>Mae'r cyhoedd yn cynnwys staff y Brifysgol a myfirwyr presennol</b> ynghyd â darpar fyfirwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol yng Nghymru. Mae'r Cynllun yn ymwneud â swyddogaethau gweinyddol ac academiaidd y Brifysgol.</p> <p>Mae'r Brifysgol yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn sicrhau bod yr holl ohebiaeth a dderbynnir gan y Brifysgol yn Gymraeg yn cael ateb wedi'i lofnodi yn Gymraeg neu ateb wedi'i argraffu ymlaen llaw yn Gymraeg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi o ran ymateb y Brifysgol i ymholiadau. Pan fydd y Brifysgol yn ysgrifennu llythyr at unigolyn sydd wedi mynegi dymuniad i dderbyn llythyrau yn Gymraeg, neu at sefydliad y mae'n hysbys ei fod yn gweithio yn bennaf drwy'r Gymraeg neu y mae'n well ganddo dderbyn llythyrau yn Gymraeg, ysgrifennir y llythyr yn Gymraeg. Os bydd y Brifysgol yn ysgrifennu at unigolyn yn dilyn cyfarfod wyneb yn wyneb neu sgwrs ffôn yn Gymraeg, ysgrifennir y llythyr yn Gymraeg.</p> <p>Wrth gychwyn gohebiaeth, bydd y Brifysgol yn gohebu yn newis iaith y derbynnydd (Cymraeg neu Saesneg), os bydd y dewis hwnnw yn hysbys. Os na wyddys p'un ai Cymraeg neu Saesneg yw dewis iaith y derbynnydd, byddwn yn cychwyn gohebiaeth yn ddwyieithog.</p> <p>Wrth gofrestru yn y Brifysgol, gofynnir i fyfirwyr ddatgan a yw'n well ganddynt gael eu gohebiaeth bersonol yn Gymraeg neu yn Saesneg neu yn ddwyieithog. Bydd gohebiaeth gyda myfirwyr ar ôl hynny yn eu dewis iaith.</p> <p>Os bydd myfirwyr yn gofyn i'r broses gwyno gael ei chynnal drwy gyfrwng y Gymraeg, bydd y Brifysgol yn gwneud hyn ar yr amod ei bod yn rhesymol ac yn ymarferol gwneud hynny.</p>

## 5. Pa gamau gaiff eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau andwyol?

Nid yw'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi unrhyw effaith andwyol bosibl sy'n ymwneud â gweithredu'r Weithdrefn hon, fodd bynnag, mae'n cydnabod y gallai unigolion/grwpiau sydd â'r nodweddion gwarchoddedig canlynol fod yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Weithdrefn er mwyn codi materion sy'n ymwneud â'u nodwedd warchoddedig:

- Hil/ethnigrwydd
- Crefydd a Chred
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Cyfeiriadedd Rhywiol

Wrth ddatblygu'r Weithdrefn ddiwygiedig, bu'n bwysig sicrhau y cafodd gofynion penodol y grwpiau hyn eu hystyried er mwyn gwneud y Weithdrefn yn hygyrch i'w defnyddio.

Mae'r Weithdrefn yn egluro yr ymdrinnir â phob cwyn mewn modd cyfrinachol a sensitif. Dim ond os bydd angen y caiff gwybodaeth a gaiff ei chasglu fel rhan o'r Weithdrefn Gwyno ei rhannu â phartion eraill.

Os nad yw myfyriwr yn gallu gwneud cwyn ei hun e.e. oherwydd cyflwr iechyd, gall gael ei gynrychioli gan drydydd parti.

Cydnabyddir hefyd y gallai rhai grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig, yn benodol y grwpiau a nodwyd uchod, fod yn fwy tebygol o brofi gwahaniaethu neu aflonyddu. Mae cysylltiadau i bolisiau Urddas yn y Gwaith ac wrth Astudio a Chyfle Cyfartal yn atgyfnerthu ymrwymiad y Brifysgol i ddileu achosion o wahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb a darparu gweithdrefn ar gyfer gwneud cwynion ffurfiol am achosion o wahaniaethu ac aflonyddu.

Cydnabyddir efallai na fydd rhai myfyrwyr, oherwydd anabledd neu am resymau eraill (e.e. myfyrwyr rhyngwladol sydd dramor ar y pryd, myfyrwyr sydd â dibynnyddion) yn dymuno/gallu bod yn bresennol mewn cyfarfod ymchwiliad wyneb yn wyneb. Gellir gwneud addasiadau i'r Weithdrefn i'w gwneud yn hygyrch e.e. gellir cynnig cyfarfodydd Skype / sgysiau ffôn fel dewis amgen.

Bydd y Weithdrefn Gwyno i Fyfywrwyr a chanllawiau ategol ar gael yn Gymraeg a Saesneg ac mewn fformatau eraill (e.e. Braille, print bras, tâp, disg ac ar bapur lliw) ar gais. Bydd hefyd modd lawrlwytho'r Weithdrefn o wefan y Brifysgol.

Os bydd unrhyw un angen i addasiadau rhesymol eraill sy'n ymwneud ag anabledd gael eu gwneud i'r Weithdrefn er mwyn ei gwneud yn hygyrch neu gael unrhyw ofynion penodol eraill sy'n ymwneud â nodwedd warchoddedig, gellir codi hyn gyda'r person sy'n ymdrin â'r gŵyn neu'r tîm Cwynion Myfyrwyr.

Yn ogystal, caiff camau gweithredu pellach sy'n ymwneud â monitro cwynion eu gweithredu fel rhan o'r Weithdrefn Gwyno i Fyfywrwyr, gan gynnwys gweithredu'r gwaith o fonitro cydraddoldeb ar gyfer y Cam Datrys Cynnar a gwella prosesau ar gyfer monitro nodweddion gwarchoddedig y rhai sy'n gwneud cwynion. Ategir hyn drwy gyflwyno system rheoli achosion electronig ar gyfer cwynion myfyrwyr yn 2017-18.

Gwneir darpariaethau cymorth priodol ar gyfer gofynion diwylliannol ac iaith lle bo hynny'n briodol ac yn ymarferol

## 6. Trefniadau monitro

Rhagwelir y caiff system rheoli achosion electronig ar gyfer cwynion myfyrwyr ei chyflwyno yn 2017-18. Bydd hyn yn galluogi'r Brifysgol i ddarparu ystadegau monitro ar gyfer cwynion yn ystod pob cam o'r Weithdrefn Gwyno i Fyfyrwyr.

## 7. Cynllunio camau gweithredu

- Bydd datganiad yn cael ei gynnwys ar y Ffurflen Gwyno i hysbysu myfyrwyr y gallai data personol a gasglwyd fel rhan o'r broses gwyno gael eu cynnwys mewn ystadegau monitro cwynion (bydd hyn yn cynnwys opsiwn 'gwell gennyf beidio â dweud' ar gyfer holl ddata)
- Sicrhau bod cyfran deg o Swyddogion Ymchwilio gwrywaidd a benywaidd
- Darparu hyfforddiant ymchwilio i bob Swyddog Ymchwilio
- Darparu hyfforddiant cydraddoldeb i bob Swyddog Ymchwilio
- Gweithredu'r system rheoli achosion electronig
- Cyhoeddi Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar wefan y Brifysgol

## 8. Cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gael ar fewnwyd y staff, a bydd copi ar gael i fyfyrwyr ar gais.

### **Mae rhagor o gyngor a chymorth ar gael gan:**

Catrin Morgan, Rheolwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (GOVRN)  
morganca5@caerdydd.ac.uk 029 20870230

I gael esboniad llawnach ar y ddeddfwriaeth y tu ôl i'r broses, gweler gwefan y Brifysgol ac hefyd ganllawiau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Gwneud Penderfyniadau Ariannol Teg.